**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Re/205/2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

12 Medi 2023

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu ynghylch amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru 2024-25.

Cyn toriad yr haf, mynegodd y Trefnydd a minnau fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb ar 12 Rhagfyr, ar yr amod bod y dyddiad yn dibynnu ar amseriad Datganiad Hydref Llywodraeth y DU.

Cadarnhaodd Canghellor y Trysorlys yn Senedd y DU ar 5 Medi na fyddai Datganiad yr Hydref yn digwydd tan ddydd Mercher 22 Tachwedd. Dyma pryd y byddwn yn dysgu manylion setliad ein Cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Ni fydd yn bosibl mwyach inni gyhoeddi Cyllideb Ddrafft yn unol â'r amserlen a amlinellwyd yn flaenorol; rwy'n sylweddoli y bydd hyn yn destun siom i'r Senedd.

O ystyried y posibilrwydd o newidiadau sylweddol yn sgil Cyllideb y DU, rydym o'r farn na fyddai'n bosibl llunio cynlluniau gwario cadarn o fewn yr amserlen wreiddiol. Yn ogystal, ni fyddem yn dymuno gosod cynlluniau cyn Datganiad yr Hydref oherwydd effeithiau niweidiol posibl ar bartneriaid cyflawni a fyddai, efallai, yn gwneud eu cynlluniau eu hunain ar sail rhagdybiaethau anghywir.

Mae'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i geisio cytundeb y Pwyllgor i gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ddydd Mawrth 19 Rhagfyr. Byddai hyn yn rhoi i Weinidogion Cymru y cyfnod lleiaf posibl sydd ei angen i baratoi cynlluniau gwario, dogfennau'r Gyllideb a thablau ategol, sef 3 wythnos a 4 diwrnod. Mae'r amserlen hon yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd mwyaf ymarferol rhwng yr amser sydd ei angen i lunio'r Gyllideb Ddrafft a chraffu arni, a sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd o ran cyllido i'n partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid cyn y Nadolig.

Rwy'n ymwybodol o effaith hyn ar yr amser a fydd ar gael i bwyllgorau graffu ar ein cynlluniau gwario. Bydd yn golygu mabwysiadu amserlen debyg i amserlenni llawer o'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

blynyddoedd ers i Lywodraeth y DU symud i ddigwyddiad cyllidol yn yr hydref, gan roi 6 wythnos a 4 diwrnod i Aelodau graffu ar y Gyllideb cyn i Bwyllgorau’r Senedd gyhoeddi eu hadroddiadau ddydd Llun 5 Chwefror. Bydd y cyfnod craffu o reidrwydd yn cynnwys 3 wythnos o doriad Nadolig.

Fel yr ydym wedi’i drafod, mae’r amserlen gywasgedig yn cael effaith debyg ar yr amser a fydd ar gael i Weinidogion Cymru ddatblygu eu cynlluniau gwario, ac mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn blwyddyn sydd â phwysau sylweddol yn sgil chwyddiant. Er hynny, bydd Gweinidogion yn parhau i ddarparu’r esboniadau llawnaf o’u penderfyniadau, ac effaith y penderfyniadau hynny, yn yr amser cyfyngedig a fydd ar gael iddynt.

Rwy’n bwriadu trefnu’r ddadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer dydd Mawrth 6 Chwefror. Ni fydd y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi’r Gyllideb Flynyddol, sef 27 Chwefror, na’r dyddiad arfaethedig ar gyfer cynnal dadl arni, sef 5 Mawrth, yn newid.

Byddaf yn gwneud datganiad cyn gynted â phosibl ar y Gyllideb Ddrafft yn yr wythnos eistedd gyntaf yn y flwyddyn newydd. Byddwn i’n ddiolchgar iawn am eich cydweithrediad mewn amgylchiadau sydd eto o dan ddylanwad ffactorau y tu hwnt i’n rheolaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**